

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2015– 6:00 y h., 7 TACHWEDD 2015
GWESTY'R ROYAL OAK, BETWS Y COED

1. Croeso

Estynnodd Richard Roberts, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod.

Diolchod i'r swyddogion am eu gwaith yn ysdod y flwyddyn ac i'r aelodau am eu cyfraniadau i weithgareddau y clwb. Diolchodd hefyd i lolo ap Gwynn am roi ddarlith flynyddol y Clwb eleni yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod.

2. Ymddiheuriadau :

3. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2014

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2014 yng Ngwesty Victoria, Llanberis fel rhai cywir.

4. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd lolo fod y pwyllgor wedi cwrdd dair gwaith eleni, ym misoedd Ionawr, Mai a Medi.

Rhai o'r materion a gafodd sylw:

Trefniadau ar gyfer darlith y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd lolo ap Gwynn wedi rhoi y ddarlith yn yr Eisteddfod eleni ac ni chafwyd unrhyw broblemau gyda'r trefniadau ymarferol y tro hwn. Roedd y pwyllgor yn meddwl y byddai'n well i'r dyfodol cynnal y ddarlith yn ddiweddarach yn ystod wtyhnos yr Eisteddfod ac hefyd y byddai ei chynnal yn gynharach yn y bore neu yn hwyrach yn y prynhawn yn well.

Llyfryn Mynydda – Roedd Eryl wedi bod yn brysur yn cydgordio y trefniadau i baratoi y llyfryn gyda'r bwriad o'i gael yn barod ar gyfer Nadolig 2016. Roedd y pwyllgor wedi penderfynu gwneud cyfraniad o £2000 tuag at y gost o'i gyhoeddi.

Roedd y pwyllgor hefyd wedi bod yn ceisio cael trefn ar offer y Clwb. Roedd Myfyr wedi cael ar ddeall fod yna stoc ac offer (helmedau/rhaffau ac ati) yn y De nad oedd wedi cael eu defnyddio o gwbl. Roeddynt bellach wedi eu trosgwlyddo i'r Gogledd erbyn hyn. Roedd yna gyflenwad o llochesi argyfwng ar gael i arweinyddion teithiau i'w cario. Roedd y pwyllgor yn teimlo bod angen trefn i sicrhau fod aelodau yn ymwybodol o hyn.

Roedd y pwyllgor wedi trefnu diwrnod o flasu gweithgareddau'r Clwb a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn, 20 Mehefin 2015. Trefnwyd gweithgareddau dringo/sgramblo a thaith gerdded ond yn anffodus siomedig fu'r ymateb i'r diwrnod.

Roedd y pwyllgor dal yn bryderus am ddifyg aelodau iau ymysg aelodaeth y Clwb. Yn y cyfarfod ym mis Medi fe gytunwyd y byddai'n syniad i geiso cysylltu a Phrifysgolion Cymru i

geisio annog myfyrwyr i ymuno a gweithgareddau'r Clwb adeg eu gwyliau. Roedd yna fwriad hefyd i gysylltu gyda gwrsyll Glan-Ilyn yr Urdd.

Roedd y pwyllgor wedi cytuno i atgyfodi y syniad o gynnal ambell i daith ar y Sul i weld sut ymateb a geid.

Ystyriwyd Apel Nepal Cymru a'r problemau a gafwyd gan drefnwyr yr apel i agor cyfrif banc. Methiant fu'r ymdrechion hyn ac roedd y pwyllgor wedi cytuno i gynorthwyo'r apel trwy fancio incwm yr apel a threfnu trosglwyddo yr arian i Nepal cyn belled nag oedd unrhyw gost yn syrthio ar y Clwb

Bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cysylltu yn ddiweddar yn gofyn os y byddai'r Clwb yn barod i'w cynorthwyo gyda'r ymdrech i geiso chwalu rhai o'r carneddi a geir ar y llwybrau i fyny Cader Idris ar ddyddiad pendol i'w benu rhywbryd yn 2016. Roedd y Pwyllgor wedi mynegu pryder i'r Parc yn y gorffennol am bresenoldeb carneddi di-angen ar nifer o fynyddoedd Eryri ac fe hysbyswyd y Parc y byddai'r Clwb yn barod i'w cynorthwyo gyda'u hymgyrch ar Gadair Idris.

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Adroddodd ei bod yn bwysig pwysleisio mai cyfrifoldeb sy'n cael ei rannu yw'r cyfrifoldeb o drefnu gweithgareddau'r clwb. Mae wedi ei rannu efo tri cyd-lynydd sef Dewi Hughes sy'n gyfrifol am deithiau'r de, Haf Meredydd sy'n gyfrifol am y rhai dydd Mercher ac Arwel Roberts sy'n gyfrifol am y dringo. Mae'n cael ei rannu hefyd efo'r rhai sy'n gwirfoddoli i drefnu ac arwain gweithgareddau – 46 o wahanol unigolion eleni. Roedd yn ddiolchgar dros ben iddynt a diolchodd iddynt hefyd ar ran y clwb a'i aelodau. Llynedd 7 o fenywod a arweiniodd weithgaredd; roedd y ffigwr wedi codi eleni – ond dim ond i 9!

Pwysleisiodd fod y cyfrifoldeb o drefnu gweithgareddau'r clwb - wedi ei rannu efo tri cyd-lynydd sef Dewi Hughes sy'n gyfrifol am deithiau'r de, Haf Meredydd sy'n gyfrifol am deithiau dydd Mercher ac Arwel Roberts, gyda chymorth Myfyr Tomos, sy'n gyfrifol am y dringo. Mae'n cael ei rannu hefyd efo'r rhai sy'n gwirfoddoli i drefnu ac arwain gweithgareddau – 42 o wahanol unigolion eleni. Diolchodd yr unigolion yma ar ran ei hun ac ar ran aelodau'r clwb sydd wedi mwynhau'r teithiau a drefnwyd ganddynt.

Trefnwyd 24 o deithiau cerdded ar Sadyrnau yn y gogledd gyda chyfartaledd o 10.5 ar bob taith; 22 oedd y rhif mwyaf, yn mwynhau diwrnod braf ddiwedd Mai ar Aran Benllyn ac Aran Fawddwy. Cafwyd taith Sadwrn felly mwy neu lai bob pythefnos. Cynhaliwyd 9 o deithiau Mercher, gyda chyfartaledd o 22.6 ar y teithiau hyn, gyda'r nifer yn rhyfeddol o gyson, rhwng 20 a 27 ar wahân i un daith efo 14. Cynhaliwyd 10 o deithiau yn y de hefyd; nid oes gennyf niferoedd gan na dderbynnir adroddiadau o deithiau'r de. Efallai bod yna wrthwynebiad cydwybodol i gofnodi'r hyn sy'n digwydd!

Trefnwyd tair taith feicio, un ar feiciau lôn a dwy ar feiciau mynydd gyda chyfartaledd o 8. Trefnir y rhain yn ychwanegol at y teithiau cerdded. Cyfarfu rhai aelodau hefyd i ddringo o bryd i'w gilydd.

Cafwyd wythnos lwyddiannus iawn yn yr Alban nol ym mis Chwefror, gyda'r rhan fwyaf yn aros dan yr unto mewn hen blasdy hela ger Shiel Bridge. Maldwyn sy'n parhau i drefnu'r triapiau hyn felly llawer o ddiolch iddo.

Diolch hefyd i Guto Evans am drefnu penwythnos llwyddiannus a dymunol iawn yn Llanymddyfri ac iddo ef ac Alun Voyle ac Iolyn am arwain y teithiau – dewis o feicio neu gerdded ar y Sadwrn a’r Sul.

Cafwyd darlith hynod ddiddorol yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan Iolo ap Gwynn, yn hel atgofion am Hanner Canrif o Fynydda, a darlith Goffa Llew Gwent bellach wedi sefydlu ei hun fel digwyddiad blynyddol.

Cynhaliwyd Diwrnod Blasu hefyd, yn ardal Ogwen, ac er i’r rhai a ddaeth fwynhau’r profiad yn fawr, siomedig oedd hi o ran niferoedd.

Mae gan y pwyllgor gynlluniau ar gyfer ceisio denu mwy o bobl ifanc i ymuno â’n gweithgareddau megis cysylltu â’r Urdd ac â chymdeithasau Cymraeg y colegau. Bwriedir hefyd trefnu ‘taith teulu’ yn y gwanwyn.

Penderfynwyd hefyd trefnu rhai teithiau ar y Sul yn 2016 rhag ofn y byddai’r diwrnod hwnnw’n fwy hwylus i rai.

Roedd bob amser yn croesawu sylwadau, gan gynnwys beirniadaeth os oes awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella’r ddarpariaeth. Gofynnodd i’r aelodau i fod yn barod i gynnig arwain a threfnu dros y flwyddyn sydd i ddod.

6. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Derbyniwyd adroddiad gan Iolo ar y defnydd a wnaed o wefan y Clwb yn ystod y flwyddyn

Roedd wedi cael rhifau gan Google Analytics – yn adlewyrchu ymwelwyr i wefan y Clwb. Roedd dadansoddiad “Active users” dros y 30 diwrnod diweddaraf yn dangos y canlynol:

Rhwng 20 a 30 ymweliad bob dydd.
Cyfanswm o tua 700 o dudalennau dros y cyfnod.
46% merched 54% dynion

Oedran
18-24: 27.5%
25-34: 33.5%
35-44: 15.5%
45-54: 12.5%
55-64: 5.5%
65+: 5.5%

75% - cyfrifiadur desg neu liniadur
16.5% - tabled
10.38% - ffôn

93% o ynysoedd Prydain
5% o UDA
Gweddill o Brasil, Eidal, Portiwgal, Almaen, Canada, Aifft, Spaen a’r Ffindir.

Roedd y defnydd o “Facebook” ar gynnydd (cafwyd y rhifau canlynol gan ‘Facebook’):

56% dynion 44% merched
Tua 300 o 'hoffwyr' rheolaidd.
Y rhan fwy o ynysoedd Prydain. Tref uchaf: Bangor (31), ail: Caernarfon (25), nesaf: Caerdydd (19)
Oedran
18-24: 3%
25-34: rhwng 9 a 14% (gwahaniaethau rhwng merched a dynion)
35-44: rhwng 10 a 13%
45-54: rhwng 11 a 13%
55-64: rhwng 5 a 9%
65+: rhwng 3 a 5%

7. Adroddiad y Trysorydd.

Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2014-2015.

Adroddwyd

- i. Roedd y nifer o aelodau eleni wedi gostwng ychydig i 288
- ii. Fe roddwyd rhoddion i'r canlynol yn ystod y flwyddyn
Community Action Nepal (Apel Daeargryn) - £1000,
Menter Iaith Conwy – Prosiect Enwau a Hnaes)- £275
Mynyddoedd Pawb - £250
Tim Achub Llanberis - £200
- iii. Bod sefyllfa ariannol y Clwb yn iach a bod y cyfrifon yn dangos bod swm o £7,188.24 yn y banc.

Cytunwyd derbyn y cyfrifon ar gyfer 2014-2015

8. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2016:

Trysorydd : Gareth E Roberts
Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts
Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain
Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

9. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2016

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth na chafwyd enwebiadau ar gyfer gwasanaethu ar y pwyllgor yn 2016 ac fod aelodaeth presennol y pwyllgor wedi datgan eu parodrwydd i gario ymlaen i wasanaethu arno am flwyddyn arall. Yn sgil hynny, cadarnhawyd y canlynol i wasanaethu ar y Pwyllgor yn 2016:

Richard Roberts	Cadeirydd
Sian Shakespear	Is-Gadeirydd
Gareth E Roberts	Trysorydd
Eryl Owain	Ysgrifennydd Gweithgareddau

Iolo ap Gwynn
Iolo Roberts

Ysgrifennydd y Wefan
Ysgrifennydd Cyffredinol

Dewi Hughes
Elen Huws
Myfyr Thomas
Eirwen Williams
Gwyn Williams (Llanrwst)
Mark W Williams
Sian Williams

10. Archwilydd

Penodwyd George Jones fel **Archwilydd**.

11. Unrhyw Fater Arall

Ni ddaeth unrhyw gais i law i drafod pwnc penodol.

Ar ol y cinio blynyddol cafwyd cyflwyniad o sleidiau gan Arwel Meical am ardal y Mynydd Du Roedd Arwel yn gyfarwydd iawn a'r ardal ac hefo wybodaeth helaeth a diddorol am enwau lleol a nodweddion arbennig y tirwedd a hanes

Ar ran yr aelodau diolchodd Richard i Arwel am ei gyflwyniad hynod ddifyr ac nododd fod ei gyflwyniad yn codi naws ar rhywun i grwydro yr ardal yma.